


# Y Gell Cyngor Technegol

# Crynodeb o’r Cyngor

## 7 Mai 2021







© Hawlfraint y Goron 2021

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor

7 Mai 2021

## Crynodeb o'r prif bwyntiau

- **Mae nifer yr achosion yn parhau i syrthio ar lefel genedlaethol**, gyda gostyngiad o 15% i 9.7 o achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth, gan gadw Cymru o fewn trothwy'r nifer isaf o achosion swyddogol. Ceir cryn amrywiaeth ar lefel ranbarthol o ran newid wythnosol, er bod lefel y digwyddedd achosion yn isel.
- Mae'r amcangyfrif diweddaraf gan y **Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau** (SAGE) o'r rhif atgynhyrchu ($R_t$) ar gyfer Cymru rhwng **0.7 ac 1.0** (cyfwng hyder o 90%), ac mae'r gyfradd twf rhwng -5% a 0%. Mae amcangyfrifon o R a'r gyfradd twf gan SAGE yn cynrychioli trosglwyddiadau COVID-19 2 i 3 wythnos yn ôl yn hytrach na heddiw.
- Ar 5 Mai, amcangyfrifodd **Iechyd Cyhoeddus Cymru** (PHW) fod $R_t$ rhwng **0.8 a 0.9** (cyfwng hyder o 95%). Mae'r amcangyfrif hwn yn fwy cyfredol nag un SAGE, gan gynrychioli trosglwyddiadau oddeutu 1 wythnos yn ôl; ond dim ond ar episodau profion SARS-Cov-2 y mae wedi'i seilio.
- Mae'r amcangyfrifon o R a chyfraddau twf yn dod yn gynyddol ansicr wrth i gyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau gyrraedd lefelau isel, gyda chyfran uwch o achosion o ganlyniad i glystyrau o frigiadau o achosion. Ar hyn o bryd, gallai fod yn fwy defnyddiol edrych ar newidiadau mewn mesuriadau sy'n gysylltiedig â digwyddedd a chyffredinrwydd yn hytrach na $R_t$.
- Fel yr adroddwyd gan PHW, fel ag yr oedd y sefyllfa am 22:00 ar 7 Mai, mae bron i **1.9 miliwn o ddosau cyntaf** o frechlyn COVID-19 a thros **0.8 miliwn o ail ddosau** wedi cael eu rhoi yng Nghymru.
- Ar gyfer yr wythnos o 26 Ebrill i 2 Mai 2021, mae'r Arolwg Heintiadau COVID-19 yn amcangyfrif bod cyfraddau heintio COVID-19 yn y gymuned yng Nghymru wedi lleihau'n sylweddol i tua **1 person o bob 2,070** (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 400 i 1 o bob 3,400), neu 1,500 o bobl yn ystod y cyfnod hwn.
- Fel ag yr oedd y sefyllfa ar 7 Mai, yr Amrywiolyn sy'n Peri Pryder "VOC-20DEC-01" (B.1.1.7, a nodwyd gyntaf yng Nghaint) yw'r amrywiolyn mwyaf cyffredin yng Nghymru o hyd, gyda **12,879** (+1,275 ers yr adroddiad diwethaf) o achosion tebygol neu a gadarnhawyd ar sail genomeg wedi'u nodi. **Sylwer bod y cynnydd sylweddol hwn yn deillio o newid mewn methodoleg, gan gynnwys achosion tebygol ar 5 Mai.**
- O ran Amrywiolynnau eraill sy'n Peri Pryder (VOC) ac Amrywiolynnau sy'n Destun Ymchwiliad (VUI), mae **12 (+4)** o achosion tebygol neu a gadarnhawyd ar sail genomeg o'r amrywiolyn **VUI-21APR-01** (B.1.617, a nodwyd gyntaf yn India) a **5 (+5)** o achosion tebygol neu a gadarnhawyd ar sail genomeg o'r amrywiolyn **VOC-21APR-02** (B.1.617.2, a nodwyd gyntaf yn India) wedi'u nodi yng Nghymru.

- Yn ôl y data symudedd diweddaraf, bu gostyngiadau yn y rhan fwyaf o gategorïau dros ŵyl y banc 3 Mai, gyda mwy o bobl yn aros yn eu cartrefi neu'n agos at eu cartrefi.
- Yn fyd-eang, am yr ail wythnos yn olynol, mae nifer yr achosion o COVID-19 yn parhau ar y lefelau uchaf ers dechrau'r pandemig gyda thros 5.7 miliwn o achosion wythnosol newydd, yn dilyn naw wythnos yn olynol o gynnydd, yn bennaf oherwydd tueddiadau yn Ne-ddwyrain Asia a achosir gan amrywiolynnau sy'n peri pryder.

**Papurau'r Gell Cyngor Technegol/SAGE a gyhoeddwyd yr wythnos hon [Saesneg yn unig]:**

- SAGE: SPI-M-O: Amcanestyniadau tymor canolig, 21 Ebrill 2021
- SAGE: SPI-B: Ystyried ymddygiad mewn perthynas â'r nifer sy'n derbyn y cynnig brechu yng Ngham 2 a'r tu hwnt, 9 Mawrth 2021
- SAGE: Astudiaeth draws-sefydliadol: Ffactorau risg sy'n gysylltiedig â lleoedd sydd â chyffredinrwydd uchel parhaus a dulliau posibl o fonitro newidiadau yn y cyffredinrwydd lleol hwn, 22 Ebrill 2021
- SAGE: Is-grŵp amrywiad gofodol SPI-M: Diffinio 'cyffredinrwydd uchel parhaus', 21 Ebrill 2021
- SAGE: SPI-M-O: Datganiad consensws ar COVID-19, 21 Ebrill 2021
- SAGE: JUNIPER a LSHTM: Ffracsiwn priodoladwy poblogaeth (PAF) ar gyfer achosion sy'n deilio o gynulliadau gyda pherthnasedd i strategaethau lliniaru COVID-19, 22 Ebrill 2021

**Papurau allanol o ddiddordeb [Saesneg yn unig]:**

- Agweddau'r cyhoedd at frechlynnau COVID-19: Astudiaeth ansoddol